

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN



# Mudiad Ysgolion Meithrin

## Yr arbenigwyr blynyddoedd cynnar Cymraeg

*Nod Mudiad Ysgolion Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn dan oed ysgol yng Nghymru fanteisio ar brofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.*



www.mym.co.uk

***Mudiad Ysgolion Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol. Mae ein darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cynnwys:***

***Cylchoedd Meithrin*** *- mae tua 550 o gylchoedd meithrin ledled Cymru yn cynnig sesiynau gofal ac addysg dyddiol ar gyfer plant 2 - 5 mlwydd oed. Mae dros 10,000 o blant yn cael cyfle i ddysgu trwy chwarae yn y Gymraeg yn ein cylchoedd meithrin.*

***Cylchoedd Ti a Fi*** *– mae dros 450 o gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru. Dyma gyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu a rhannu profiadau ac i chwarae gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig. Bydd cyfle yma i rieni gael gwybodaeth am faterion pwysig yn ymwneud â sgiliau magu plant, iechyd plant a datblygiad iaith.*

***Meithrinfeydd*** *– mae ein meithrinfeydd dydd llawn yn cynnig gofal ac addysg o ansawdd i blant dros chwe wythnos oed hyd oed ysgol mewn awyrgylch deniadol, diogel, cyfeillgar a Chymreig.*

***Cynlluniau Cyfeirio*** *- mae Cynlluniau Cyfeirio'r Mudiad yn cynnig cefnogaeth arbennig i blant gydag anghenion addysgol arbennig. Trwy gydweithio â gweithwyr arbenigol yn y maes, cynigiwn gymorth ychwanegol sydd yn galluogi plant ag anghenion arbennig i fanteisio'n llawn ar y profiadau a'r gweithgareddau a gynigir yn y cylchoedd meithrin. Gall hyn gynnwys cynorthwy-ydd ychwanegol yn y cylch, offer arbenigol a chludiant.*

***Cam wrth Gam*** *– is-gwmni'r Mudiad yw Cam wrth Gam sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal hyfforddiant ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar gyfer gweithwyr a rhieni'r cylchoedd ar draws Cymru. Mae hefyd yn cynhyrchu adnoddau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i atgyfnerthu'r hyfforddiant.*

***Canolfannau Integredig*** *- mae ein Canolfannau Integredig yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a'u teuluoedd sy'n cynnwys gofal dydd llawn a sesiynol, darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, hyfforddiant a chyngor i rieni.*

***Mabon a Mabli*** *– is-gwmni'r Mudiad yw Mabon a Mabli sy'n gyfrifol am gynhyrchu a gwerthu llyfrau ac adnoddau Cymraeg sy'n addas i'r blynyddoedd cynnar. Gellir gweld yr adnoddau ar y wefan www.mabonamabli.co.uk*

*Mae tua 180 o staff cyflogedig gan y Mudiad yn genedlaethol a thros 1,500 o staff yn gweithio yn y cylchoedd meithrin. Mae Swyddogion Datblygu'r Mudiad yn gweithio'n lleol yn eu siroedd er mwyn cynnig arweiniad a chyngor ymarferol i staff y cylchoedd, gwirfoddolwyr a rhieni.*

*Gan fod chwarae yn sylfaenol i bob agwedd o ddatblygiad plant, mae'r profiadau a'r gweithgareddau a gynigir ar draws holl ystod ein darpariaethau wedi eu seilio ar ddysgu trwy chwarae. Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi ar ddatblygiad iaith, ac ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol plant yn ein cylchoedd.*

*'Mae plant sy'n mynychu cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin yn datblygu'n sylweddol dros ystod eang o sgiliau iaith Gymraeg.'*
***Yr Athro Colin Baker***

***Am ragor o wybodaeth ffoniwch am ddim ar:***

0800 11 22 33

www.mym.co.uk

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Cefnogir ein gwaith gan:

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh Assembly Government


MUDIAD YSGOLION MEITHRIN



# Mudiad Ysgolion Meithrin

## The leading Welsh early years specialists

*Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) aims to give every pre-school child in Wales the opportunity to benefit from early years experiences through the medium of Welsh.*



www.mym.co.uk

**MYM is the main provider of Welsh medium early years care and education in the voluntary sector. Our early years provision includes:**

**Cylchoedd meithrin** – there are approximately 550 cylchoedd meithrin across Wales offering daily sessional care and education for children 2 – 5 years old. Over 10,000 children are given the opportunity to learn through play through the medium of Welsh in our cylchoedd meithrin.

**Cylchoedd Ti a Fi** – there are over 450 cylchoedd Ti a Fi across Wales. These groups offer children from birth through to school age and their parents an excellent opportunity to meet once a week to socialise, share experiences and to play together in an informal Welsh atmosphere. Parents are given the opportunity to gain access to information on issues relating to parenting skills, children's health and language development.

**Day Nurseries** – MYM nurseries provide quality full day care and early education for children from six weeks old to school age in an attractive, safe, friendly and Welsh environment.

**Referral Schemes** – MYM Referral Schemes (Cynlluniau Cyfeirio) offer special support to children with special educational needs. By working with experts in the field, we can offer extra support to enable children with special needs to take full advantage of the experiences and activities offered in cylchoedd meithrin. This can include an additional assistant in the cylch, specialist equipment and transport.

**Cam wrth Gam** – Cam wrth Gam is a subsidiary of MYM and is responsible for developing and delivering training in early years care and education through the medium of Welsh to cylchoedd staff and parents across Wales. It also produces Welsh early years resources to support the training.

**Integrated Centres** – MYM Integrated Centres offer a wide range of services through the medium of Welsh for children and their families, which include sessional and full day care, before and after school provision, training and advice for parents.

**Mabon a Mabli** - Mabon a Mabli is a subsidiary of MYM responsible for producing and selling Welsh early years books and resources. The resources can be seen on the website www.mabonamabli.co.uk

MYM employs around 180 staff nationally and over 1,500 members of staff work in our cylchoedd meithrin. MYM Development Officers work at a local level in each county offering guidance and practical advice to the staff, volunteers and parents at our cylchoedd.

As play is integral to every aspect of children's development, the experiences and activities offered across our range of provision are based on learning through play. Special emphasis is placed on language development and the personal, social and emotional development of the children in our cylchoedd.

*'Children attending Mudiad Ysgolion Meithrin make considerable progress across a wide range of Welsh language skills.'*
**Professor Colin Baker**

**For further information, please call free on:**

0800 11 22 33

www.mym.co.uk

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Supported by:
BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD